



Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif:	WGC 005/21	Dyddiad cyhoeddi:	20 Gorffennaf 2021
--	-------------------	--------------------------	--------------------

Statws:	I'w weithredu
----------------	---------------

Teitl:	Hysbysiad o ganllawiau newydd sydd â goblygiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
---------------	--

Cyhoeddwyd gan:

Nicola Edwards
Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Ar gyfer:	Anfonwch ymlaen at:
Arolygiaeth Gofal Cymru Estyn Gofal Cymdeithasol Cymru SkillsActive Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cydgysylltwyr Gofal Plant ac arweinwyr Cynnig Gofal Plant Awdurdodau Lleol Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol Timau Dechrau'n Deg Awdurdodau Lleol AWARE Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol Consortiwm Gofal Plant CWLWM Chwarae Cymru	Yr holl wasanaethau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig a phartïon eraill â diddordeb

Crynodeb

Cyhoeddir y Cylchlythyr hwn gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Sicrhewch fod ei gynnwys yn cael ei gyfleu i bawb sydd â diddordeb cyn gynted â phosibl.

Diben y Cylchlythyr hwn yw rhoi cyngor i'r sector gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru ynghylch deddfwriaeth a chanllawiau newydd yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

E-bost: TrafodGofalPlant@llyw.cymru

Gwefan: www.llyw.cymru

Canllawiau a deddfwriaeth newydd yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

Mae'r cylchlythyr hwn yn tynnu eich sylw i'r canlynol:

- canllawiau diogelwch tân a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gwarchodwyr plant
- newidiadau i'r deddfwriaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol mewn lleoliadau nas cynhelir

Canllawiau diogelwch tân i warchodwyr plant

Mewn ymateb i geisiadau gan y sector gwarchod plant am ganllawiau ychwanegol ynghylch diogelwch tân i warchodwyr plant, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau diogelwch tân](#) ar gyfer gwarchodwyr plant yn ddiweddar. Nod y canllawiau yw helpu gwarchodwyr plant i ystyried sut y gallant liniaru'r risgiau sy'n gynhenid mewn amgylchedd domestig ac felly sicrhau diogelwch y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau gwarchod plant. Datblygwyd y canllawiau gan weithwyr diogelwch tân proffesiynol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru a Pacey (Cymru) ac mae'n cynnwys cyngor ar sut i gynnal asesiadau risg i atal tanau yn y cartref.

Er bod y canllawiau, ar y cyfan, yn cyd-fynd â'r wybodaeth yn Safon 24 Diogelwch y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12](#)

[oed](#), mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn diweddarau Safon 24.23 drwy gynghori nad oes angen offer diffodd tân o unrhyw fath mewn unrhyw leoliad domestig, gan gynnwys safleoedd domestig a ddefnyddir gan warchodwyr plant. Ar y sail honno, y cyngor presennol yw nad yw blancedi tân a diffoddwyr tân yn orfodol nac yn cael eu hargymell.

Byddwn yn adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol maes o law i adlewyrchu'r canllawiau presennol.

Newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Y system ADY yw'r system gymorth statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru sydd ag ADY a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2021.

Mae fframwaith deddfwriaethol y system newydd wedi'i greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'), Cod ADY Cymru a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Nod Llywodraeth Cymru drwy'r fframwaith statudol hwn yw sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyrraedd ei botensial llawn.

O dan Safon 4 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol 'Diwallu Anghenion Unigol', nodir yn 4.5

yr angen i ddarparwyr gofal plant cofrestredig ddilyn y Cod Ymarfer cyfredol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol) ar gyfer Cymru.

Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn disodli'r term 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) â'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'. Bydd y system ADY yn dechrau fesul cam o fis **Medi 2021**, gyda'r rolau statudol a grëwyd o dan y Ddeddf wedi'u cychwyn ym mis Ionawr 2021.

Mae'r [Cod ADY](#) a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf i gefnogi'r system ADY newydd yn cynnwys canllawiau ar gyfer darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir gan yr awdurdodau lleol. Yn unol â threfniadau ariannu'r awdurdod lleol, mae'n **ofynnol** i ddarparwyr a ariennir roi sylw i'r canllawiau hyn. Mae Penodau 6, 10 ac 11 o'r Cod yn darparu canllawiau penodol ar gyfer darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir gan yr awdurdodau lleol. Efallai y bydd darparwyr gofal plant cofrestredig eraill hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol. Mae'r Cod yn esbonio sut y bydd awdurdodau lleol yn cefnogi darparwyr gofal plant i nodi plant ag ADY yn eu lleoliadau.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol benodi swyddog o'r enw **Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar ('Swyddog Arweiniol**

ADY y Blynyddoedd Cynnar') a fydd yn gweithio gyda darparwyr gofal plant a sefydliadau ymbarél perthnasol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am ADY. Gwnaed y rôl hon yn statudol ym mis Ionawr 2021.

Bydd Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn helpu darparwyr i nodi ac atgyfeirio achosion o ADY posibl i'r awdurdod lleol yn gynnar, gyda'r bwriad o roi ymyrraeth gynnar briodol yn ei lle yn brydlon. Bydd Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn helpu darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir drwy roi arweiniad a hyfforddiant ar ddiwallu anghenion plant sy'n mynychu eu lleoliadau, er enghraifft mewn perthynas â darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Datblygu Unigol plentyn ac oedi datblygiadol.

Yn ogystal â'r wybodaeth yn y Cod ADY, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o [ganllawiau](#) ynghylch ADY a bwriedir cyhoeddi gwybodaeth bellach yn ymwneud â gweithredu'r system ADY yn raddol.

Cyhoeddwyd [cwrs e-ddysgu](#) cyffredinol ar y system ADY ar Hwb ym mis Ionawr 2021, a bydd cyfres o fideos byr yn cael eu cyhoeddi yn haf 2021 a fydd yn rhoi trosolwg o gyfrifoldebau gwahanol sectorau o dan y Ddeddf. Bydd fideos ar wahân ar gael i'r awdurdodau lleol a'r sector Blynyddoedd Cynnar.

Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyfeirio at y Cyfnod Sylfaen - cwricwlwm presennol y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3-7 oed.

Rhaid i bob gwarchodwr plant a lleoliad gofal dydd gan gynnwys lleoliadau gofal dydd sesiynol sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gydymffurfio â Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a wnaed o dan Ddeddf Addysg 2002. Yn ogystal, mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant cofrestredig (p'un a ydynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol i gyflwyno Cyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar ai peidio), yn unol â Safon 7.10 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ddeall a chymhwyso egwyddorion y Cyfnod Sylfaen "mewn ffordd sy'n briodol i oedran, gallu a cham datblygu'r plant sydd yn eu gofal a natur y ddarpariaeth." Nid yw'r Safon hon yn berthnasol i chwarae mynediad agored na darpariaeth y tu allan i'r ysgol, er y dylid parhau i ystyried elfennau perthnasol yn ddymunol fel arfer da.

O fis Medi 2022, bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cymryd lle'r Cyfnod Sylfaen. Bydd angen i bob darparwr gofal plant cofrestredig y mae Safon 7.10 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gymwys iddo ar hyn o bryd, ddeall egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a dechrau paratoi i gymhwyso'r rhain mewn lleoliadau o fis Medi 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod cwricwlwm ar gael ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir er mwyn bodloni gofynion Deddf Cwricwlwm ac

Asesu (Cymru) 2021. Bydd lleoliadau a ariennir yn gallu mabwysiadu'r cwricwlwm hwn, neu efallai y byddant am gynllunio eu rhai eu hunain, neu weithio gydag eraill i gynllunio cwricwlwm. Fodd bynnag, bydd angen i leoliadau sy'n dymuno cynllunio eu cwricwlwm eu hunain sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf. Cyhoeddwyd [cwricwlwm drafft](#) ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir at ddibenion ymgynghori ar 21 Mai.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried anghenion dysgu proffesiynol y sector i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol o fis Medi 2022.

Gall darparwyr gysylltu â'u sefydliad ymbarél perthnasol i gael gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi a allai fod ar gael ar hyn o bryd. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar wefan [CWLWM](#). I gael gwybodaeth am gefnogi a hwyluso chwarae plant mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysgolion sy'n cynnig y cwricwlwm newydd, cysylltwch â [Chwarae Cymru](#).

Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddiweddarau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chyhoeddi dogfen safonau diwygiedig yn 2022, a hynny er mwyn adlewyrchu datblygiadau perthnasol mewn meysydd polisi cysylltiedig a chymryd i ystyriaeth rhai o'r argymhellion sy'n deillio o [adroddiad yr adolygiad](#) a gyhoeddwyd yn 2019.

